Cofnodion Cyfarfod Cyswllt Partneriaeth Niwbwrch

7 – 9 pm Dydd Mercher 23 Tachwedd, Sefydliad PJ

Pwrpas y cyfarfod

- Ystyried cynnydd y grwpiau gorchwyl a gorffen, cadarnhau bod pethau'n mynd yn eu blaen yn foddhaol, datrys unrhyw broblemau sydd wedi codi, gwneud penderfyniadau ar unrhyw argymhellion a wnaed gan y grwpiau neu gwestiynau sy'n cael eu gofyn ganddynt.

- Cytuno ar y camau nesaf, gan gynnwys dyddiadau cyfarfodydd ac adroddiad ar gynnydd y gellir ei ddefnyddio at ddibenion cyhoeddusrwydd.

Crynodeb o ganlyniadau'r cyfarfod
(i'w ddefnyddio gan y grŵp Partneriaethau ac Ymwneud y Gymuned a chan holl aelodau'r bartneriaeth gyswllt i roi'r newyddion diweddaraf i'r rheiny maent hwy'n eu cynrychioli)

Cafwyd adroddiad gan bob grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cynnydd a wnaed ac mae gwaith pob un yn cadw at yr amserlen. Bydd rhestr o'r dewisiadau sy'n cael eu datblygu yn cael ei llunio a'i dosbarthu'n fewnol. Cytunwyd ar y camau nesaf ar gyfer pob grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Mae'r Bartneriaeth Gyswllt yn awyddus i annog y gymuned i gymryd rhan mor lawn â phosibl yn y prosiect. O hyn ymlaen, bydd y grŵp Partneriaethau ac Ymwneud y Gymuned yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg bob mis ar y cynnydd a wnaed, wedi'u seilio ar ddiweddariadau'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen, ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar yr hysbysfwrdd bob mis. Mae newyddlen yn cael ei hystyried. Dylid diweddaru'r wefan yn gyson. Cynllunnir cyfarfodydd ymhell ymlaen llaw er mwyn rhoi digon o rybudd.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Bartneriaeth Gyswllt ar Ddydd Mercher 1 Chwefror a bydd bwyd a diod ar gael!

Cysylltiad: Robert Williams, robert.williams@forestry.gsi.gov.uk, 07775818958

Yn mynychu'r cyfarfod:
Byddwch cystal â nodi: er bod y nifer yn isel, roedd pob grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i gynrychioli.

Cyfranogwyr: Lindsey Colbourne (hwylusydd annibynnol), Kate Evans (Trigolion Dwyran), Anne Harrington-Rees (Newyddion Niwbwrch), Simon Hunt (Cyngor Sir Môn), Barbara James (Clybiau ac Ysgolion Dringo yr ochr arall i Afon Menai), Hefin Lloyd Roberts (Cerddwyr Ynys Môn), Wil Sandison (CCGC), John Tripp (CDCW), Liz Webb (Newyddion Niwbwrch), Robert Williams (Comisiwn Coedwigaeth Cymru), Kath McNulty (cydgysylltydd CC Cymru)

Ymddiheuriadau: Kim Burnham (CC Cymru), Elinor Gwynn (CCGC), Elizabeth Llanddwyn Jones, Jon Levell (CC Cymru), Simon & Pat Parker, Geoff Radford (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt), John Ratcliffe (CCGC), Chris Wynne (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt)

Penderfyniad	**Gweithredu**	**Pwy**	**Erbyn pryd**
Mae'r bartneriaeth yn cael trafferth gwneud ei gwaith a lledaenu gwybodaeth oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i ysgrifennu cofnodion, eu cyfieithu, eu dosbarthu a'u rhoi ar y we. Dylem gael rhywun o'r tu allan i wneud hyn os oes modd i gyflymu pethau	Gofyn i Catrin a all hi deipio (a chyfieithu?) cofnodion y cyfarfodydd y mae hi'n eu hwyluso	Kath	25.11.05
	Teipio'r cofnodion a'u dosbarthu ymhlith yr aelodau yn gyflym, cyn eu cyfieithu	Hwyluso/Rhian	Parhaus
	Diweddaru'r wefan yn gyson	Kath/Rhian	Parhaus
	Edrych eto ar y rhestrau postio. Mae rhai o hyd nad ydynt yn cael y cofnodion.	Kath/Rhian	Diwedd Tachwedd
Rhoi newyddlen fisol ar yr hysbysfwrdd a'i defnyddio'n sylfaen ar gyfer datganiad i'r wasg. Rydym am i bob cyfathrebu allanol fod yn ddwy-ffordd. Felly dylid cynnwys manylion cysylltu ar bob datganiad a newyddlen a dylent ofyn am adborth	Sicrhau bod pob cyfarfod yn cynhyrchu crynodeb o ganlyniadau y cytunwyd arno, ynghyd â manylion cysylltu ar gyfer sylwadau, gwybodaeth ac ati	Hwylusydd y cyfarfod	Parhaus
	Llunio'r adroddiadau cryno a'u rhoi: Ar yr hysbysfwrdd Yn newyddlen y cyngor sir Yn y wasg (3 phapur newydd) I bobl allweddol megis gwleidyddion	Grŵp partneriaethau ac ymwneud Liz Simon Hunt Clive Davis Grŵp partneriaethau ac ymwneud	Parhaus
	Paratoi erthygl gychwynnol i'r wasg i esbonio'r bartneriaeth / broses gyswllt a chlymu hyn â stori ar weithgareddau addysgol a chysylltiadau ag ysgolion	Clive Davis Grŵp partneriaethau ac ymwneud	Dechrau Rhagfyr
Gan i'r adborth o'r ymgynghoriad ddangos bod pobl eisiau cael y newyddion diweddaraf ar ffurf newyddlen bapur neu ddatganiad i'r wasg, dylem ganolbwyntio ar ledaenu gwybodaeth drwy ddosbarthu o ddrws i ddrws fel ffordd o ailgynnau diddordeb pobl ac ni ddylem ddefnyddio'r holiadur i wneud hyn	Ystyried sut i ddosbarthu newyddlen o ddrws i ddrws fel ffordd o ailgynnau diddordeb pobl a'u cael i gymryd rhan	Grŵp partneriaethau ac ymwneud	6 Rhagfyr

Penderfyniad	**Gweithredu**	**Pwy**	**Erbyn pryd**
Ychwanegu manylion at yr amserlen bresennol ynghylch: y camau nesaf i'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen	Cynnwys yn y cofnodion (gweler yr amserlen isod a'r nodyn ar y mathau o ddewisiadau sy'n cael eu datblygu)	Lindsey	25.11.05
	Cael hyd i gynrychiolydd o CCGC ar gyfer y grŵp economeg	Wil	
Mae cyfathrebu mewnol yn hanfodol, i sicrhau ein bod yn gwybod beth mae pob grŵp yn ei wneud	Dosbarthu rhestr o'r dewisiadau sy'n cael eu datblygu gan bob grŵp. Caniatáu amser i drafod y rhain yn y cyfarfod nesaf o'r bartneriaeth gyswllt	Lindsey	Diwedd Tachwedd 1 Chwefror
	Anfon cofnodion allan yn gyflym (gweler uchod)	Fel uchod	Parhaus
	Dosbarthu'r adroddiad cryno misol yn fewnol	Grŵp partneriaethau ac ymwneud	Unwaith y mis
	Gofyn i Catrin a fydd hi'n gydgysylltydd ar gyfer y crynodebau o gyfarfodydd	Kath	25.11.05
Ni fydd y grŵp addysg yn paratoi dewisiadau ond bydd yn edrych ar y goedwig a'r tywyn fel adnodd addysgol ac yn datblygu rhaglen o ddigwyddiadau	Datblygu rhaglen o weithgareddau addysgol ar gyfer y goedwig a'r tywyn	Grŵp addysg	Parhaus
	Trafod dehongli / y ganolfan ymwelwyr	Grŵp addysg	29 Tachwedd 6pm, SPJ
	Dod ag adroddiad yr ymgynghorydd i'r cyfarfod	Elinor	29.11.05
Dylid cynllunio cyfarfodydd ymhell ymlaen llaw os oes modd, ac anfon agendâu wythnos ynghynt	Anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd	Hwyluswyr	Parhaus
	Gosod dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y grŵp economeg a'u dosbarthu Sylwer: ceir cyd-gyfarfod â'r grŵp addysg hefyd ar 29 Tachwedd am 6pm yn SPJ i drafod dehongl / y ganolfan ymwelwyr	Michael, Kate, Chris	25.11.05 cyfarfod ar 29 Tach gyda'r grŵp addysg
	Dyddiadau nesaf ar gyfer y grŵp partneriaethau ac ymwneud	Pawb yn y grŵp	6 Rhag, 24 Ion, 21 Chwef yn SPJ am 7pm
	Cyfarfodydd nesaf y bartneriaeth gyswllt	Pawb	1 Chwef, 13 Mawrth, 25 Ebrill
	Trefnu bwyd a diod ar gyfer cyfarfod nesaf y bartneriaeth gyswllt	Kath/Robert	1 Chwef o 6.30pm
	Ffonio pobl a threfnu dyddiadau ar gyfer y grŵp mynediad a hamdden	Robert	

Penderfyniad	Gweithredu	Pwy	Erbyn pryd
	Cyfarfodydd y grŵp cynefinoedd a rhywogaethau	Pawb yn y grŵp	30 Tach, 14 Rhag, 11 Ion 06, 8 Chwef 06, 8 Mawrth *7pm i 9pm yn Sefydliad PJ*
	Cyfarfodydd y grŵp addysg		29 Tach, 6pm yn SPJ

Amserlen

Y gwaith y mae angen ei wneud	**Erbyn pryd?**
Gwella cyfathrebu o fewn y bartneriaeth gyswllt, ac â'r gymuned leol	Ar unwaith ac yn barhaus

Cwblhau'r gwaith ar ddewisiadau yn y **grwpiau gorchwyl a gorffen**
- Gweithio drwy'r gridiau i gwblhau'r gwaith ar ddewisiadau, gan nodi manteision ac anfanteision
- Cael unrhyw wybodaeth, barn a ffeithiau sydd eu hangen i fod yn siwr o'r dewisiadau, a diweddaru'r dewisiadau ar sail hyn
- Cofnodi unrhyw wybodaeth ategol ar gyfer pob dewis
- Rhesymoli unrhyw ddyblygu o fewn y dewisiadau
- Ystyried, fel grŵp, a oes unrhyw ddewisiadau y gallai pawb yn y grŵp eu cefnogi (byw gyda hwy), ac a yw'r gefnogaeth honno'n amodol ai peidio (e.e. Byddwn yn ei gefnogi pe bai…)
- Nodi unrhyw wrthdrawiadau o bwys a'r hyn sydd y tu cefn iddynt
- Llunio argymhellion i'r bartneriaeth gyswllt ynghylch:
  - Y dewisiadau i'w rhoi gerbron
  - Penderfyniadau allweddol neu faterion dadleuol y mae angen eu datrys
	Hyd at y gwanwyn 06

Y bartneriaeth gyswllt i edrych ar y dewisiadau a gynigir, dileu unrhyw ddyblygu a dwyn ynghyd 'senarios' posibl ar gyfer y goedwig a'r tywyn yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys cytuno ar a defnyddio set o feini prawf ar gyfer asesu dichonolrwydd y dewisiadau.	Gwanwyn 06
Ymgynghori ar y senarios, gan gynnwys esbonio pa ddewisiadau sydd heb gael eu cynnwys a pham. Ymgynghori i ddarganfod y dewisiadau sydd orau gan bawb, pa anfanteision nad ydynt yn dderbyniol ac ati	Gwanwyn / haf 06
Y bartneriaeth gyswllt i ystyried canlyniadau'r ymgynghori a gwneud argymhellion ar y dewis gorau ar gyfer yr ardal. Bydd hyn yn cynnwys ceisio trafod â chyrff perthnasol a allai helpu i ddatblygu'r syniadau	Hydref 06
Gwaith i gael ei wneud gan gyrff priodol (e.e. gan y Comisiwn Coedwigaeth ar y Cynllun Dyluniad Coedwig). Gellir gwneud hyn mewn ymgynghoriad â'r grŵp gorchwyl a gorffen priodol a/neu'r bartneriaeth gyswllt	Hydref / gaeaf 06
Gweithredu a monitro, gan gynnwys penderfynu ar rôl y bartneriaeth gyswllt yn y dyfodol	Gaeaf 06 ymlaen

Y mathau o ddewisiadau sy'n dod i'r amlwg

Tynnodd y grŵp gorchwyl a gorffen economeg sylw at y ffaith bod tri math o ddewis yn dod i'r amlwg:

- y rheiny y gall y grŵp weithio arnynt a'u rhoi ar waith yn weddol ddidrafferth
- y rheiny y byddai'n rhaid cael cadarnhad gan gyrff megis CCGC a CC Cymru eu bod yn bosibl cyn gallu bwrw ymlaen â hwy (Sylwer: dylai hyn fod yn digwydd yn anffurfiol o fewn y grwpiau gorchwyl a gorffen)
- y rheiny y gallai pobl/cyrff eraill weithredu arnynt pe caent eu cefnogi mewn egwyddor.

Senarios sy'n dod i'r amlwg

Roedd Lindsey wedi cael cip sydyn ar y dewisiadau sy'n dod i'r amlwg ym mhob grŵp. I roi amcan o'r hyn sy'n datblygu, mae'n ymddangos bod y mathau o 'senarios' sy'n cael eu ffafrio yn canolbwyntio ar:

- Cynyddu'r amrywiaeth o brofiadau i ddefnyddwyr, tra'n cysylltu'r goedwig fwy â phobl leol a'r economi lleol
- Cynyddu mynediad gan bobl abl ac anabl i bob ardal
- Cynyddu gwerth / gwneud y defnydd mwyaf o ardal y goedwig
- Cynyddu gwerth / gwneud y defnydd mwyaf o ardal y twyni
- Integreiddio'r goedwig a'r twyni (a'r traeth)
- Gwella cynefinoedd i rywogaethau/gofynion gwrthdrawiadol y rhywogaethau

Bydd Lindsey yn cynhyrchu ac yn dosbarthu rhestr o'r holl ddewisiadau y mae'r grwpiau gorchwyl a gorffen yn gweithio arnynt.